

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483
(BROAD STREET A HIGH STREET,
LLANFAIR-YM-MUALLT, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llanfair-ym-Muallt, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 15 Ebrill 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (22:00 – 06:00 o'r gloch) o 15 – 20 Ebrill 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Broad Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â'r A470 Castle Street hyd at ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane.

**THE A483 TRUNK ROAD (BROAD STREET &
HIGH STREET, BUILTH WELLS, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Builth Wells, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The Order comes into force on 15 April 2024. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (22:00 – 06:00 hours) from 15 – 20 April 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be given before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the trunk road known as Broad Street, Builth Wells that extends from a point 10 metres west of its junction with the A470 Castle Street to the centre-point of its junction with King's Head Lane.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â King's Head Lane hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw High Street, Llanfair-ym-Muallt sy'n ymestyn o bwynt 3 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Strand Street hyd at bwynt 3 metr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Market Street.

Y llwybrau eraill

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin, y bydd cau'r ffordd a grybwyllir ym mharagraffau 1 a 2 (nid effeithir ar gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain) yn effeithio arnynt, yw o Bont Afon Gwy ar yr A483 y Strand tua'r gorllewin a Strand Street tua'r de i ailymuno â'r gefnffordd ym mhen gorllewinol High Street. Yn ystod y gwaith hwn bydd y system unffordd ar y Strand wedi ei hatal dros dro.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin, y bydd cau'r ffordd a grybwyllir ym mharagraff 3 (nid effeithir ar gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain) yn effeithio arnynt, yw o Bont Afon Gwy ar yr A483 y Strand, Church Street a Ffordd y Parc tua'r gorllewin, ac yna Garth Road a West Street tua'r dwyrain. Yn ystod y gwaith hwn bydd y system unffordd ar yr A483 y Strand, Church Street a West Street yn cael ei hatal dros dro.

The length of the trunk road known as High Street, Builth Wells that extends from the centre-point of its junction with King's Head Lane to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Strand Street.

The length of the trunk road known as High Street, Builth Wells that extends from a point 3 metres west of the centre-point of its junction with Strand Street to a point 3 metres east of the centre-point of its junction with Market Street.

Alternative routes

The alternative route for westbound vehicles affected by the closure in paragraphs 1 and 2 (eastbound unaffected) is from the Wye Bridge via the westbound A483 The Strand and southbound Strand Street to re-join the trunk road at the western end of High Street. During these works the one-way system on The Strand will be suspended.

The alternative route for westbound vehicles affected by the closure in paragraph 3 (eastbound unaffected) is from the Wye Bridge via the westbound A483 The Strand, Church Street and Park Road, then eastbound Garth Road and West Street. During these works the one-way system on the A483 The Strand, Church Street and West Street will be suspended.